

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**CYNLLUN DISWYDDIAD GWIRFODDOL AC YMDDEOLIAD
GWIRFODDOL CYNNAR**

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn, yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol

Tim Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards

Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop/Maria Litchfield

Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Dinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw ac yn defnyddio'r data personol yr ydym yn ei gasglu. Mae'n ofynnol ein bod, yn unol â deddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu o'r wybodaeth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o contract ar gyfer darparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarau o'r hysbysiad ar gael i chi cyn gynted ag y bydd yn ymarferol i ni wneud hynny.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd yn ogystal â'r ['Polisi Safonau preifatrwydd ar hysbysiad preifatrwydd llawn](https://www.merthyr.gov.uk/media/3840/privacy-standards-policy.pdf) <<https://www.merthyr.gov.uk/media/3840/privacy-standards-policy.pdf>> sydd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynghylch prosesu data a gellir ei weld ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth ar y modd yr ydym yn defnyddio'ch data personol ar gyfer y Cynllun Diswyddiad Gwirfoddol ac Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a sut y bydd yr Adran Datblygu Trefniadaeth yn defnyddio'ch data wedi i chi fynegi diddordeb. Bydd eich data personol hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn penderfynu os yw'ch cais, o dan y cynllun yn llwyddiannus. Mae'r cynllun diswyddiad gwirfoddol ar gael ar gyfer cyflogion sydd â dros 2 flynedd o wasanaeth parhaus.

Mae'r cynllun ymddeoliad cynnar, gwirfoddol ar gael ar gyfer aelodau Cynllun Pensiwn yr Awdurdod Lleol sydd yn 55 oed a hŷn. Mae'r pecyn diswyddiad gwirfoddol / ymddeoliad cynnar, gwirfoddol yn cynnwys taliad chwyddo o 20% i'r taliad diswyddiad statudol, yn unol â'n polisi.

Bydd Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, o dan gyfarwyddyd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn gyfrifol am asesu'r ceisiadau a dderbynnir.

2. PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr data ac felly rydym y gyfrifol am y data personol yr ydym yn ei gadw. Mae'r Cyngor yn cynnwys adrannau amrywiol a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar ein [gwefan](http://maps.merthyr.gov.uk/offices.htm). <<http://maps.merthyr.gov.uk/offices.htm>> Pan fyddwn yn sôn am Adran, byddwn yn cyfeirio at Adnoddau Dynol a Datblygiad Trefniadaeth a hwy fydd yn gyfrifol am brosesu'ch data ar gyfer y gwasanaethau y sonnir amdanynt yn ein hysbysiad preifatrwydd.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i holl staff y Cyngor, gan gynnwys uwch swyddogion, cyfarwyddwyr, penaethiaid gwasanaeth, rheolwyr, arweinwyr tîm ac is-swyddogion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu ag ef drwy'r manylion ar frig yr hysbysiad.

3. PA DDATA PERSONOL SYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO

Byddwn yn casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch os dewiswch gyflwyno mynegiant o ddiddordeb:

- Dynodwyr personol sydd yn cynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni
- Rhifau adnabod, gan gynnwys rhif yswiriant cenedlaethol a'r gyflogres
- Data ariannol fel manylion banc, eich gwybodaeth gyflog gyfredol gan gynnwys graddfa'ch cyflog a'ch manylion taliad diswyddo gwirfoddol/ymddeoliad
- Data addysgol fel cymwysterau, canlyniadau arholiad, hanes addysgol, presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi
- Data cyflogaeth fel teitl eich swydd, hanes cyflogaeth, eich safle cyfredol yn y sefydliad, manylion o gyfrifoldebau'ch swydd, oriau gwaith a hyd cyfnod eich gwasanaeth
- Data Geo-ofodol fel cyfeiriad MAC neu IP

Gallwn hefyd storio data demograffaid sydd yn rhoi cyd-destun i'ch data personol fel:

- Data ffordd o fyw sydd yn cynnwys statws priodasol, priodoleddau, enw da a barn personol a sut y maent yn bodloni meini prawf y Cynllun

Gallwn hefyd brosesu data mwy sensitif fel:

- Gwybodaeth ddiwylliannol all gynnwys yr iaith a ffafrir a'r ieithoedd yr ydych yn eu siarad.

Mae categorïau arbennig o ddata personol, sensitif sydd angen lefel uwch o ddiogelwch. Rydym yn casglu, storio ac yn defnyddio y categorïau arbennig canlynol o ddata personol amdanoch:

- Hil neu darddiad ethnig

- Barn wleidyddol
- Aelodaeth undeb llafur
- Bydd data iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol ond yn cael ei ddefnyddio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol wrth asesu cyfrifoldebau ychwanegol y bydd angen eu dyrannu i aelodau cyfredol y staff.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau yr ydym yn eu defnyddio i gasglu'r data hwn amdanoch yn adran 4, yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

4. SUT MAE'CH DATA PERSONOL YN CAEL EI GASGLU

Rydym yn casglu data personol amdanoch drwy'r Holiadur Mynegiant Diddordeb a'r ffurflen gais Trosglwyddo Dealltwriaeth. Wedi i ni dderbyn y ffurflen hon, bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol yn asesu'ch cais. Mae'r ffurflenni'n cael eu cadw fel copïau caled a bydd adrannau unigol yn cyfeirio atynt. Mae'r Adran Gyfrifyddiaeth, ar y cyd ag Adran y Gyflogres yn gyfrifol am gyfrifo'ch ffigurau disgwylidig sydd yn seiliedig ar oed a hyd eich gwasanaeth. Wedi i'ch ffurflen gael ei derbyn, bydd yr Adran yn cysylltu â chi er mwyn eich hysbysu o'ch ffigwr taliad, disgwylidig.

Byddwn yn mewnbysu'ch data personol i System Rheoli Dogfen Electronig y Cyngor (EDM.) Byddwn hefyd yn creu Taenlen Excel er mwyn cofnodi'r manylion ar gyfer y sawl sydd am gyflwyno'r Mynegiant o Ddiddordeb. Mae'ch data personol yn cael ei storio ar weinyddwyr cyfrifiadurol, diogel y Cyngor a dim ond personél awdurdodedig fydd yn gallu cael mynediad iddo. Mae personél sydd â mynediad i'ch data personol yn derbyn hyfforddiant diogelu data a diogelu gwybodaeth yn flynyddol.

Gallwn weithiau gasglu data personol, ychwanegol gan drydydd parti sydd yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gan eu bod yn gyfrifol am weinyddu Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol a bydd angen iddynt ddarparu data ariannol sydd yn gysylltiedig â'ch hawlogaeth.

Byddwn yn casglu data personol, ychwanegol yn ystod swyddogaethau busnes y Cyngor a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, drwy gydol eich cyfnod cyswllt â ni. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y mae'ch data personol yn cael ei ddefnyddio mewn gwasanaeth arall, edrychwch ar ein hysbysiad preifatrwydd ar ein [gwefan](#).

5. SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n cynnwys darpariaethau o dan [Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol](https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32016R0679&from=EN) <<https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32016R0679&from=EN>> a lle y mae hynny'n berthnasol, [Deddf Diogelu Data 2018](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted). <<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted>> Byddwn yn defnyddio'ch data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

Erthygl 6(1)(b) sydd yn cyfeirio at gontrat; y contact yn yr achos hwn yw'ch contract cyflogaeth.

Erthygl 6(1)(c) sydd yn cyfeirio at y gofyniad cyfreithiol, yn benodol y rheiny o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996

Deddf Taliadau Diswyddiadau 1965

Deddf Contractau Cyflogaeth 1963

Cod Ymddygiad ACAS

Cyfraith gyffredin, berthnasol sydd yn gysylltiedig â diswyddiad a therfynu cyflogaeth

Erthygl 6(1)(e) sydd yn cyfeirio at dasg gyhoeddus, yn y fan hon mewn ymateb i Gytundeb Setliad Llywodraeth Cymru, yn sgil cyfyngiadau cyllidebol.

6. RHANNU'CH DATA PERSONOL

Gallwn rannu'ch data personol ar draws yr Adran er mwyn darparu cymorth. Byddwn hefyd yn rhannu'ch data yn fewnol ag Adrannau eraill, sydd yn cynnwys:

Y Gyflogres a Phensiynau	-	Derbyn ffigurau ynghylch eich cyflog a'ch pensiwn
Cyfrifyddiaeth	-	Cyfrifo'ch ffigwr taliad, yn seiliedig ar oed a hyd eich gwasanaeth
Newid Busnes	-	Cwblhau cynllun y gweithlu
Gwasanaethau Cyfreithiol	a	- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol
Llywodraethu		
TGaCh	-	Rheoli mynediad i systemau cyfrifiadurol y Cyngor a diweddarau'r llyfr cyfeiriadau, corfforaethol
Tîm Rheoli Corfforaethol	-	Asesu'ch mynegiant o ddiddordeb

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwasanaethau hyn, bydd angen i ni hefyd rannu'ch data personol â sefydliadau allanol sydd yn cynnwys:

Unison

GMB

Unite

Adran Bensiynau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn derbyn ffigurau'ch pensiwn

Nid ydym, yn arferol yn rhannu'ch data personol â sefydliadau allanol wrth brosesu mynegiant o ddiddordeb.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd angen i ni rannu data personol â Llywodraeth Cymru a hynny am resymau ystadegol neu ddadansoddol. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data personol sydd yn cael ei gadw gennym er mwyn rheoleiddio sut yr ydym yn cyflawni'n swyddogaethau cyhoeddus.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad arall y tu allan i [Ardal Economaidd Ewrop](#). Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn eich hysbysu o hynny cyn gynted ag y bydd fodd a gallwch ddisgwyl graddfa debyg o ddiogelwch, parthed eich data personol.

7. AM BA MOR HIR YR YDYM YN CADW'CH DATA PERSONOL

Byddwn ond yn cadw'ch data personol ar ffeil am y cyfnod sydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r bwriadau, gan gynnwys ar gyfer cyflawni gofynion cyfreithiol, cyfrifyddiaeth neu adrodd yn ôl. Bydd y data personol a fydd yn cael ei gasglu, yn unol â'r prosesu a fanylir yn yr hysbysiad hwn yn cael ei gadw am 2 flynedd. Wedi'r dyddiad hwn, bydd eich data personol yn cael ei ddileu'n ddiogel.

Mae manylion ynghylch cyfnodau cadw gwahanol agweddau o'ch data personol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

8. SUT YR YDYM YN CADW'CH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym yn gweithredu mesurau diogelwch addas er mwyn osgoi i'ch data personol gael ei golli'n ddamweiniol, ei ddefnyddio, ei gyrchu, ei addasu neu ei ddatgelu mewn modd anawdurdodedig. Rydym yn cyfyngu mynediad i'r cyflogeion hynny sydd â busnes i wybod amdano. Bydd y cyflogeion ond yn prosesu'ch data personol wedi i ni roi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny ac maent yn destun cyfrifoldeb cyfrinachedd.

Rydym wedi gosod yn eu lle, weithdrefnau er mwyn ymdrin ag unrhyw amhariad diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr o unrhyw amhariad posib lle y mae'n ofynnol, yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Gallwch ganfod rhagor am y modd yr ydym yn cadw'ch data personol yn ddiogel drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Gwybodaeth ar information.security@merthyr.gov.uk.

9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl, o dan gyfreithiau diogelu data o ran eich data personol. Maent yn cael eu hamlinellu yn y GDPR ar gyfer bwriadau cyfranogi yn y Cynllun Diswyddiad Gwirfoddol ac Ymddeoliad Cynnar sydd yn cynnwys:

- Yr hawl i gywiro - mae gennych hawl i ofyn i gael cywiro'ch gwybodaeth.
- Gall yr hawl i gyfyngu prosesu fod yn gymwys – gallwch wneud cais i ni stopio prosesu'ch data personol, fodd bynnag, gallai hyn ohirio neu'n hatal rhag darparu gwasanaeth ar eich cyfer. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n cyfrifoldebau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio bod yn destun gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomatig.
Yr hawl i gael mynediad - mae gennych hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ar y manylion a ddarperir ar frig yr hysbysiad hwn.

Mae'n bwysig fod unrhyw ddata personol yr ydym yn ei gadw amdanoch yn gywir a chyfredol. Hysbyswch ni o unrhyw newidadau i'ch data personol fel y gallwn ddiweddarau'n cofnodion.

Os hoffech adolygu, gwirio, gwneud cais i hepgor, wrthwynebu neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch data personol i barti arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

10. MAYLION PELLACH

Gallai fod gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i'n Swyddog Diogelu Data. Darperir ei fanylion cyswllt yma neu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyllo'r DU:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru,) 2ail Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH
E-bost: wales@ico.org.uk
Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych am ragor o wybodaeth am y modd yr ydym yn prosesu'ch data personol, gan gynnwys diogelwch data, cadw data a hawliau personol, edrychwch ar ein [polisi preifatrwydd llawn](#). <<https://www.merthyr.gov.uk/media/3859/full-council-notice.pdf>>Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth, yn uniongyrchol o [wefan](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; www.ico.org.uk.